**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (CAERFYRDDIN I LANDEILO, SIR GAERFYRDDIN) (CYFYNGIADAU CYFLYMDER DROS DRO A DIM GODDIWEDDYD) 2026**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, rhwng Caerfyrddin a Llandeilo, Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn yw gosod dros dro derfyn cyflymder o naill ai 40 mya neu 10 mya a gwahardd goddiweddyd ar y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o ochr ddwyreiniol Cylchfan Glangwili, Caerfyrddin i ochr orllewinol Cylchfan Llandeilo, Llandeilo. Dim ond pan fydd gwaith confoi yn digwydd y disgwylir i'r terfyn cyflymder o 10 mya fod yn gymwys.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 3 Chwefror 2026. Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad dros dro yn weithredol yn ysbeidiol o 00:01 o'r gloch ar 3 Chwefror 2026 am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Bydd hysbysiad o'r holl gyfnodau gwaith yn ystod y cyfnod hwn yn cael ei arddangos cyn iddynt ddechrau.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A40 TRUNK ROAD (CARMARTHEN TO LLANDEILO, CARMARTHENSHIRE) (TEMPORARY SPEED RESTRICTIONS & NO OVERTAKING) ORDER 2026**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road between Carmarthen and Llandeilo, Carmarthenshire.

The effect of the Order is to temporarily impose either a 40 mph or 10 mph speed limit and prohibit overtaking on the length of the A40 trunk road that extends from the eastern side of Glangwili Roundabout, Carmarthen to the western side of Llandeilo Roundabout, Llandeilo. The 10 mph speed limit is expected to apply during convoy working.

The Order comes into force on 3 February 2026. The temporary restrictions and prohibition are expected to operate intermittently from 00:01 hours on 3 February 2026 for a maximum duration of 18 months. Notice of all work periods during this time will be displayed prior to their commencement.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government